

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y cyfarfod	10 Mawrth 2022
Aelod / Swyddogion Arweiniol:	Y Cynghorwyr Julian Thompson-Hill/Brian Jones/Tony Thomas ac Alan Smith a Steve Gadd
Awdur yr Adroddiad	Rhian Evans - Cydlynnydd Craffu
Teitl	Adolygu Penderfyniad y Cabinet yn ymwneud â'r Cynllun Penderfyniadau Dirprwyedig Arfaethedig ar gyfer Caffael Tir (Rhydd-ddaliadol a Lesddaliadol) i Ddibenion Dal a Storio Carbon a Gwelliannau Ecolegol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Adolygiad o dan drefn 'galw i mewn' Craffu'r Cyngor o benderfyniad a wnaed gan y Cabinet, ar 15 Chwefror 2022, ynghylch 'Cynllun Penderfyniadau Dirprwyedig Arfaethedig ar gyfer Caffael Tir (Rhydd-ddaliadol a Lesddaliadol) i Ddibenion Dal a Storio Carbon a Gwelliannau Ecolegol'.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Cyflwynwyd rhybudd o 'alw i mewn' gan 6 cynghorydd nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Mae'r rhybudd (ynghlwm yn Atodiad A) yn galw am adolygiad gan un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor o benderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 15 Chwefror 2022 mewn perthynas â chynllun penderfyniadau dirprwyedig arfaethedig ar gyfer caffael tir i ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod y Pwyllgor yn:

- 3.1 ar ôl ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad hwn a'i atodiadau, ynghyd â sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth, penderfynu os dylid cyfeirio'r

penderfyniad ar y 'Cynllun Dirprwyedig Arfaethedig ar gyfer Caffael Tir (Rhydd-ddaliadol a Lesddaliadol) i Ddibenion Dal a Storio Carbon a Gwelliannau Ecolegol, a wnaed ar 15 Chwefror 2022, yn ôl i'r Cabinet ar gyfer ystyriaeth bellach; a

- 3.2 os gofynnir i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol, nodi'r rhesymau dros ofyn am adolygiad a llunio argymhellion yr hoffai i'r Cabinet eu hystyried

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1 Ar 15 Chwefror 2022 bu i'r Cabinet ystyried adroddiad ar 'Gynllun Penderfyniadau Dirprwyedig Arfaethedig ar gyfer Caffael Tir (rhydd-ddaliadol a lesddaliadol) i Ddibenion Dal a Storio Carbon a Gwelliannau Ecolegol) copi ynghlwm yn Atodiad B).
- 4.2 Wedi trafod y mater penderfynodd y Cabinet:
- (a) *“cymeradwyo cyflwyno'r cynllun newydd o benderfyniadau dirprwyedig arfaethedig ar gyfer caffael tir i ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol fel y cynigir yn Atodiad 1 i'r adroddiad,”*
 - (b) *cadarnhau ei fod wedi darllen, yn deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.”*
 - (c)
- 4.3 Mae trefn galw i mewn y Cyngor yn diffinio proses i bwyllgor Craffu ddefnyddio ei bwerau statudol i adolygu neu graffu penderfyniadau gweithredol, ac i ofyn i'r sawl a wnaeth y penderfyniad i ailystyried penderfyniad a wnaed, cyn ei weithredu.
- 4.4 Cyhoeddwyd penderfyniad y Cabinet ar 17 Chwefror 2022. Mae'r drefn 'galw i mewn' yn caniatáu i gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet i gael 5 diwrnod i gyflwyno rhybudd o 'alw i mewn'. Bu i'r Cynghorydd Merfyn Parry gyflwyno rhybudd o 'alw i mewn' yn electronig ar 23 Chwefror. Cefnogwyd y cais hwn (trwy negeseuon e-bost unigol) gan bum cynghorydd arall nad ydynt aelodau o'r Cabinet, sef y cynghorwyr David G Williams, Melvyn Mile, Huw O Williams, Rhys Thomas a Peter Evans.
- 4.5 Mae'r rheswm a nodwyd dros 'alw'r penderfyniad i mewn' fel a ganlyn:

“Fy mhryderon yw bod y Cyngor mewn sefyllfa i gymryd tir mewn arwerthiant gan o bosib cynnig mwy nag unrhyw ffermwyr neu dirfeddianwyr lleol. Rwy'n deall nad ydynt eisiau'r tir amaethyddol gorau fodd bynnag mae angen trafod y penderfyniad gyda'r Aelod lleol a'r Grwpiau Ardal Aelodau cyn rhoi cynnig ar dir heb wybod beth yw'r wybodaeth a'r angen lleol.”

- 4.6 Mae trefn 'galw i mewn' y Cyngor yn nodi y dylid cynnal cyfarfod arbennig o bwllgor craffu o fewn 5 diwrnod o gael y Rhybudd o Alw Penderfyniadau i Mewn oni bai bod fod gan bwllgor craffu gyfarfod wedi ei drefnu o fewn y cyfnod hwnnw. Mae'r drefn hefyd yn nodi y gellir ymestyn y cyfnod hwn os yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad a chadeirydd y pwllgor craffu yn cytuno i estyniad. Gan nad oedd y penderfyniad angen ei weithredu'n syth cytunwyd i ymestyn y cyfnod i alluogi i'r penderfyniad gael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y pwllgor craffu. Felly dyma ei gyflwyno i'r Pwllgor yn y cyfarfod presennol.
- 4.7 Ar ôl ystyried penderfyniad y Cabinet a'r holl sylwadau a wnaed yn y cyfarfod presennol, rhaid i'r Pwllgor Craffu Cymunedau benderfynu os dylid cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet ai peidio. Os penderfynir bod angen cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet bydd angen i'r Pwllgor ddarparu ei resymau dros ei gyfeirio'n ôl, ynghyd â gwybodaeth glir ar beth sydd angen i'r Cabinet ei ystyried. Bydd y Cabinet yn ystyried y cyfeirio a'r rhesymau a gyflwynwyd i gefnogi'r cyfeirio yn ei gyfarfod nesaf sydd ar gael. Yn y cyfarfod hwnnw disgwylir i'r Cabinet ddangos bod ystyriaeth briodol yn cael ei roi i argymhellion y Pwllgor Craffu.
- 4.8 Bydd gan y Cabinet y dewis i newid neu ail-gadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol.
- 4.9 Os yw'r Pwllgor Craffu Cymunedau yn penderfynu na ddylid cyfeirio penderfyniad y Cabinet yn ôl i'r Cabinet, yna gellir gweithredu'r penderfyniad gwreiddiol yn syth.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Gweler Adran 5 adroddiad y Cabinet dyddiedig 15 Chwefror 2022 (Atodiad B).

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Gweler Adran 6 adroddiad y Cabinet dyddiedig 15 Chwefror 2022 (Atodiad B).

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Gweler Adran 7 ac Atodiad 2 adroddiad y Cabinet dyddiedig 15 Chwefror 2022 (Atodiad B).

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Amherthnasol. Paratowyd yr adroddiad hwn o dan ddarpariaethau ac amserlenni Cyfansoddiad y Cyngor ar gyfer galw penderfyniad y Cabinet i mewn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Gweler Adran 9 adroddiad y Cabinet dyddiedig 15 Chwefror 2022 (Atodiad B).

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Gweler Adran 10 ac Atodiad 6 adroddiad y Cabinet dyddiedig 15 Chwefror 2022 (Atodiad B).

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Adrannau 7.2.1 Adran 7.25 o Gyfansoddiad y Cyngor